# Bil Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (Cyfraniadau Dosbarth 1 Eilaidd).

**BRIFFIO CYFNOD PWYLLGOR**

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol. Ein bwriad yw galluogi mudiadau gwirfoddol yng Nghymru i wneud gwahaniaeth mwy gyda'i gilydd.

Mae gan y Bil Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (Cyfraniadau Dosbarth 1 Eilaidd) oblygiadau sylweddol i'r sector gwirfoddol.

**Hoffem ofyn ichi gefnogi gwelliannau yn y Cyfnod Pwyllgor i ddiogelu cynaliadwyedd ariannol elusennau a mudiadau gwirfoddol.**

Mae'r mudiadau hyn yn darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, statudol yn aml, ar gyfer y rhai sydd mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas ac maent eisoes yn gweithredu â chyllidebau brau yn wyneb galw sy'n cynyddu'n gyflym.

Fe wnaethom arolwg o 100 o elusennau yng Nghymru yn ddiweddar, a dywedodd 78% fod galw cynyddol am eu gwasanaethau, ond fe ddywedodd 50% na allent fodloni'r galw hwnnw'n llawn neu o gwbl. Dywedodd bron i hanner y rhai sy'n derbyn arian cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau nad yw eu grantiau'n talu am wir gost y ddarpariaeth. Mae'n rhaid iddynt ychwanegu at hyn gyda'u cronfeydd wrth gefn.

Ac eto, bydd y cynnydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr yn rhoi rhai mudiadau o dan gryn dipyn o straen ychwanegol (tra bod cyrff cyhoeddus yn cael eu heithrio o'r cynnydd). Er enghraifft:

- Amcangyfrifodd Marie Curie gostau ychwanegol o £258,000 yng Nghymru
- Mae Gofal Canser Tenovus yn disgwyl £250,000 a fyddai'n arwain at doriadau i wasanaethau'r GIG
- Mae Cyngor ar Bopeth Sir Benfro yn amcangyfrif £38,000
- Ymddiriedolaeth Elusennol Wastesavers - £107,000
- Mind Cwm Taf Morgannwg - £20,000
- Age Connects Morgannwg - £47,000

## BYDD Y CYNNYDD HWN YN CAEL EFFAITH AR DDARPARU GWASANAETHAU

Bydd y cynnydd yn gorfodi mudiadau i wneud dewisiadau anodd, gan gynnwys cwtogi ar wasanaethau.

Yn hollbwysig, bydd y costau hyn mewn termau real yn golygu colli swyddi, llai o bobl yn cael eu cyflogi i ddarparu gwasanaethau hanfodol a llai o wasanaethau'n cael eu darparu i bobl mewn angen, gan gynnwys mewn partneriaeth â sefydliadau fel y GIG. Bydd hyn yn cael effaith negyddol amlwg ar y cymunedau y mae'r mudiadau hyn yn eu cefnogi.

Bydd y cynnydd yn rhoi'r sector dan bwysau ariannol anghynaliadwy. Rydyn ni'n dechrau gweld nad oes gan y sector gwirfoddol ddim mwy o le i amsugno'r cynnydd mewn costau ar ôl y pandemig a'r argyfwng costau byw. Mae datblygiadau diweddar wedi dangos hyn:

- Y llynedd, caeodd Chwarae Teg, un o elusennau cydraddoldeb rhywiol mwyaf dylanwadol Cymru, oherwydd materion ariannu.
- Yn ystod yr ychydig ddyddiau diwethaf, aeth corff seilwaith sector gwirfoddol hanfodol yn Lloegr i ddwylo'r gweinyddwyr - Canolfan Mudiadau Gwirfoddol Manceinion Fwyaf (GMCVO)

Yn ein harolwg diweddar o 100 o elusennau yng Nghymru dywedodd 84% wrthym eu bod yn pryderu na allant fforddio'r cynnydd mewn Yswiriant Gwladol. Er mwyn darparu ar gyfer y codiadau sylweddol hyn:

- Mae **50%** yn ystyried defnyddio mwy o gronfeydd wrth gefn elusennol
- Mae **40%** yn ystyried peidio â chynnig codiadau cyflog i gyd-fynd â chwyddiant

- Gallai **34%** leihau nifer y staff llawn amser
- Gallai **26%** leihau nifer y staff rhan-amser
- Mae **24%** yn ystyried lleihau darpariaeth gwasanaethau
- Mae **14%** yn ystyried cau gwasanaethau

## PAM MAE EICH CEFNOGAETH YN BWYSIG

Bydd cefnogi gwelliannau a fydd yn eithrio'r sector gwirfoddol rhag y cynnydd mewn Yswiriant Gwladol yn:

- Sicrhau y gall elusennau gadw staff sy'n hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau o ansawdd uchel.

- Diogelu mudiadau sy'n chwarae rhan hollbwysig wrth ddarparu gwasanaethau cymunedol hanfodol ac wrth gyflawni amcanion cenedlaethol a lleol.

## GWELLIANT A AWGRYMIR

**Hoffem ofyn i chi gefnogi gwelliannau a fydd yn sicrhau nad yw mudiadau gwirfoddol ar eu colled – drwy eithriad, tâl, neu ddulliau eraill.**

## CAIS

Gofynnwn i chi:

1. Codi buddiannau'r sector gwirfoddol yn y ddadl.

2. Cefnogi a galw am gefnogaeth i'r gwelliannau hyn yn ystod y broses bleidleisio.

Diolch am eich amser a'ch ymrwymiad i gefnogi'r sector gwirfoddol. Bydd eich eiriolaeth yn gwneud gwahaniaeth ystyrlon i gymunedau yng Nghymru.

Yn gywir,

Charles Whitmore
Pennaeth Partneriaethau Strategol